ColegauCymru
CollegesWales

# Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) yn y sector ôl-16

**Medi 2023**

Nodyn briffio ColegauCymru ar gyfer Aelodau'r Senedd ac Arweinwyr Awdurdodau Lleol.

## Trawsnewid Sefydliadau Addysg Bellach (SABau).

Bydd Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) (ALNET) a'r Cod ADY yn mynd yn fyw ar gyfer rhai dysgwyr mewn colegau o fis Medi 2023. Mae hyn yn dilyn pum mlynedd o waith trawsnewid lle mae colegau wedi ceisio gwneud gwelliannau i'w darpariaeth, hyfforddi staff a datblygu partneriaethau ag Awdurdodau Lleol, byrddau iechyd ac eraill. Mae profiad y dysgwr eisoes wedi gwella mewn nifer o ffyrdd:

- Gwell trefniadau pontio ar gyfer llawer o ddysgwyr sy'n symud o'r ysgol i'r coleg.
- Gwell mynediad at wybodaeth, gan gynnwys yr hyn a ddarperir gan y cynllun Braenaru ADY.
- Arbenigedd staff, yn enwedig o ran cyflyrau fel Awtistiaeth ac Anawsterau Dysgu Penodol.
- Ffocws ar arfer cynhwysol yn yr ystafell ddosbarth gyda hyfforddiant trwy HMS a thrwy raglenni hyfforddiant cychwynnol i ddarlithwyr.
- Hyfforddiant sy'n canolbwyntio ar ALNET i'r holl staff gyda ffocws cryf ar 'Mae ADY yn fusnes i bawb'.
- Mwy o ffocws ar ymagwedd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn drwy adolygiadau unigol a gwell darpariaeth arwahanol.
- Mae pob coleg wedi creu cynnig 'Darpariaeth Dysgu Cyffredinol ac Ychwanegol' lleol sy'n rhoi darlun clir o'u darpariaeth i ysgolion ac awdurdodau lleol.

## Heriau sy'n wynebu SABau

### Staffio

**Mae colegau wedi cynyddu staffio er mwyn paratoi ar gyfer eu dyletswyddau newydd, er gwaethaf cyllid tymor byr ychwanegol cyfyngedig a heb unrhyw sicrwydd o gefnogaeth tymor hwy**. Mae hyn yn peri heriau i SABau, yn enwedig os bydd niferoedd ADY yn cyrraedd 7% neu uwch. Mae penderfyniad y Gweinidog i gynllunio dull 'system sianelu' ar gyfer dysgwyr ôl-16 wedi lleihau'r llwyth gwaith cychwynnol posibl ar gyfer colegau. Fodd bynnag, bydd gallu SABau i gyflawni eu dyletswyddau'n llawn dros yr ychydig flynyddoedd nesaf yn dibynnu i raddau helaeth ar nifer y dysgwyr ADY sydd angen Cynllun Datblygu Unigol (CDU).

### Pontio

**Mae pontio effeithiol yn allweddol i lwyddiant pobl ifanc yn y coleg**. Mae SABau wedi bod yn gweithio gyda'u hysgolion lleol ac ALlau i wella'r profiad i bobl ifanc ac i sicrhau bod gwybodaeth gywir, gyfredol yn cael ei rhannu mewn modd amserol. **Gall gwahodd staff AB i adolygiadau pontio allweddol helpu i sicrhau pontio esmwyth ond nid yw pob ysgol yn annog hyn**. Diffynnaeth (lle mae ysgolion yn awyddus i

gadw dysgwyr ar gyfer y 6ed dosbarth) a materion capasiti yw'r achosion mwyaf cyffredin o fethiant yn y maes hwn.

### Cyfleusterau

Mae gan SABau yr arbenigedd a'r cyfleusterau i ddiwallu anghenion y rhan fwyaf o bobl ifanc ag ADY. Fodd bynnag, nid ydynt yn sefydliadau 'arbenigol' felly bydd bob amser rai pobl ifanc na allant ddiwallu eu hanghenion.

## Heriau ehangach

Mae rhai rhieni'n credu'n anghywir bod y Ddeddf newydd yn darparu gwarant o addysg a hyfforddiant amser llawn hyd nes y bydd person ifanc yn cyrraedd 25 oed. Mae hyn, ynghyd â disgwyliadau uwch a ddaw yn sgil Gweithredu ADY, yn debygol o greu cynnydd mewn anghytundebau a thribiwnlysoedd dros yr ychydig flynyddoedd nesaf.

Mynegwyd pryderon ynghylch y gostyngiad yn nifer y plant ar gofrestrau Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) ysgolion dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o seicolegwyr addysg yn credu na ddylai nifer y dysgwyr sydd angen cymorth *sy'n wahanol* ac *yn ychwanegol* i'r hyn sydd ei angen ar ddysgwyr eraill fod yn llawer mwy na 10%. Byddem yn disgwyl i'r nifer hwn leihau ymhellach wrth i ddysgwyr symud ymlaen i'r coleg gan y dylai'r ddarpariaeth ddysgu gyffredinol fod yn ddigon eang i fodloni'r rhan fwyaf o anghenion dysgwyr. Fodd bynnag, gallai cynnydd ym mhwysau rhieni wthio'r ffigur hwn i fyny.

O eleni ymlaen, mae Llywodraeth Cymru wedi dechrau'r broses o ddatganoli cyllideb a chyfrifoldeb colegau arbenigol i ALlau. Mae'r Ddeddf a'r Cod yn creu dyletswyddau newydd sylweddol i ALlau o ran asesu a diwallu anghenion addysg a hyfforddiant rhesymol pobl ifanc. **Mae cyfleoedd i ALlau a SABau gydweithio i wella'r cynnig lleol i bobl ifanc, ond mae hwn yn fater cymhleth a bydd angen i'r ddau bartner ymrwymo amser a chyllid**. Gall y newidiadau hyn hefyd greu rhai tensiynau rhwng ALlau a SABau oni bai bod gan y ddau ddealltwriaeth gyffredin o addysg bellach a hyfforddiant.

I rai rhieni, bydd trosglwyddo'r ddyletswydd hon yn creu ansicrwydd. Mae rhai yn gweld lleoliad dwy flynedd mewn Sefydliad Ôl-16 Arbenigol Annibynnol (ISPI) fel yr opsiwn a ffefrir, yn bennaf oherwydd ei fod yn darparu:

- Darpariaeth pum niwrnod (pan mai dim ond tri neu bedwar diwrnod yw'r rhan fwyaf o gyrsiau amser llawn SAB) sydd, i lawer o rieni sy'n gweithio, yn caniatáu iddynt barhau â'u gyrfaoedd.
- Opsiynau preswyl sy'n rhoi seibiant i rieni a chyfleoedd ychwanegol i ddatblygu annibyniaeth i bobl ifanc.
- Mynediad i ystod eang o therapïau arbenigol ac arbenigedd nad ydynt ar gael mewn SAB.
- Cael gwared ar rwystrau trafnidiaeth – mae trafnidiaeth o'r cartref i'r coleg wedi dod yn broblem yn y rhan fwyaf o ALlau dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf ac nid yw Canllawiau Gweithredol Teithio gan Ddysgwyr Cymru bresennol yn gwarantu teithio am ddim neu hyd yn oed â chymhorthdal i bobl ifanc.

Mae'r Cod ADY yn nodi'n glir os gellir diwallu anghenion yn lleol mewn ysgol a gynhelir neu SAB, dyma ddylai fod y dewis cyntaf. **Os gall ALlau (adrannau Addysg a Gofal Cymdeithasol), SABau a byrddau**

**iechyd weithio mewn partneriaeth, gallai leihau'r angen i bobl ifanc adael eu cymunedau a gwasanaethau lleol**.

**Cysylltwch â Chris Denham, Arweinydd Trawsnewid ADY (AB) am fwy o wybodaeth.** Chris.Denham@ColegauCymru.ac.uk